



**TAAAC - Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**

**SENTW - Special Educational Needs Tribunal for Wales**

# **Adroddiad Blynyddol 2011-2012**

**Mawrth 2013**

Mae TAAAC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill lle mae angen.

Mae copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gellir lawrlwytho copïau o wefan TAAAC neu drwy gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth.

Cyfeiriad: TAAAC

Adeiliadau Llywodraeth

Heol Spa Ddwyrain

Llandrindod

Powys

LD1 5HA

Ffôn: 01597829800

Ffacs: 01597829801

Gwefan: [www.taaac.gov.uk](http://www.taaac.gov.uk)

E-bost: [sentw@wales.gsi.gov.uk](mailto:sentw@wales.gsi.gov.uk)

ISBN 978-0-7504-9200-3

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2013

## Adroddiad Blynyddol 2011-2012 Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru


At: Leighton Andrews AC  
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mawrth 2013

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r nawfed flwyddyn o fodolaeth y Tribiwnlys ac yn rhoi manylion am nifer, math a chanlyniadau apeliadau a hawliadau Anghenion Addysgol Arbennig o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Fel arfer bu'n flwyddyn brysur iawn gyda'r holl waith o baratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun peilot yn Wrecsam a Sir Gaerfyrddin ar gyfer rhoi'r hawl apelio i blant ym mis Mawrth 2012. Fodd bynnag, rydym wedi nodi lleihad yn nifer yr apeliadau AAA. Gwelwn fod y mwyafrif o'r apeliadau sy'n mynd ymlaen i wrandawriad llawn yn rhai o natur gymhleth. Dengys y ffigurau hefyd fod nifer fawr o apeliadau yn ymwneud â gwrthod asesu ac y caiff canran fawr o'r rhain eu hildio gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro.

Mae ein rheoliadau gweithdrefnol newydd wedi dod i rym hefyd, ac rydym yn falch iawn o hyn. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i ddechrau rheolaeth achos ar rhai achosion a byddaf yn cyflwyno adroddiad arall ar gynnydd ar hyn yn y dyfodol.



Rhiannon Ellis Walker OBE  
Llywydd, TAAAC

# Cynnwys

1.	Adolygiad o'r flwyddyn	3
2.	Ysgrifenyddiaeth ac Aelodau'r Tribiwnlys	9
3.	Niferoedd ac Ystadegau	
	Tabl 3.1 Prif niferoedd ac ystadegau	10
	Tabl 3.2 Apeliadau a dderbyniwyd ac y gyflawnwyd yn ôl blwyddyn	12
	Tabl 3.3 Apeliadau a dderbyniwyd yn ôl chwarter	12
	Tabl 3.4 Apeliadau yn ôl awdurdod lleol	13
	Tabl 3.5 Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol	14
	Tabl 3.6 Apeliadau yn ôl math o apêl	15
	Tabl 3.7 Apeliadau yn ôl oedran ysgol a math o apêl	16
	Tabl 3.8 Apeliadau yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol	17
	Tabl 3.9 Apeliadau yn ôl canlyniad	18
	Tabl 3.10 Apeliadau yn ôl canlyniad a math	19
	Tabl 3.11 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol	20
	Tabl 3.12 Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a math	21
	Tabl 3.13 Apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig	22
	Tabl 3.14 Apeliadau yn ôl rhyw	23
	Tabl 3.15 Apeliadau yn ôl ethnigrwydd	23
	Tabl 3.16 Hawliadau a gofrestrwyd ac a gyflawnwyd yn ôl blwyddyn	24
	Tabl 3.17 Hawliadau yn ôl canlyniad	24
	Tabl 3.18 Ceisiadau llywyddol	25
4.	Adolygiadau ac apeliadau a symudir ymlaen	26
5.	Ein perfformiad	26
6.	Ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr	28
7.	Yr Iaith Gymraeg	28
8.	Gwariant	29
9.	Cysylltu â'r Tribiwnlys	30

Mae fersiwn electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Tribiwnlys  
[www.taaac.gov.uk](http://www.taaac.gov.uk)

# 1. Adolygiad o'r flwyddyn

Hwn yw fy nawfed adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod Medi 2011- Awst 2012. Rwyf yn gobeithio y darganfyddwch fod yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei ddeall, a gallwch gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

## Apeliadau AAA

Apeliadau yw'r mwyafrif o faich gwaith y Tribiwnlys o hyd. Cyfanswm yr apeliadau a dderbyniwyd yn ystod 2011-12 oedd 84 a chariwyd wyth apêl arall drosodd ar y cam cyn-gofrestru o 2010-11. O'r rhain, tynnwyd pum apêl yn ôl cyn cael eu cofrestru ac roedd un heb ei chofrestru o hyd ar 31 Awst 2012. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 86 o apeliadau wedi'u cofrestru gan y Tribiwnlys yn ystod 2011-12.

Yn ogystal â'r 84 o apeliadau a dderbyniwyd yn ystod 2011-12, gwnaethom hefyd ymdrin â 31 apêl arall a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr wyth apêl a gariwyd drosodd ar y cam cyn-gofrestru.

Eleni cofrestrodd y Tribiwnlys y nifer isaf o apeliadau, 86, ers i'r tribiwnlys gael ei sefydlu yn 2003/04 a dyma'r tro cyntaf ers blwyddyn tribiwnlys 2008/09 i nifer yr apeliadau a gofrestrwyd leihau.

Wrth edrych ar apeliadau ynglŷn â gwrthod asesu, gwelsom leihad amlwg o 33% yn nifer yr apeliadau a dderbyniwyd, sef 14 o achosion yn llai gan leihau o 42 yn 2010/11 i 28 yn 2011/12, ond cynyddodd nifer yr achosion ar gyfer gwrthod rhoi datganiad ychydig o 10 yn 2010/11 i 12 yn 2011/12. Er ei bod yn braf gweld y lleihad o ran gwrthod asesu, mae'r ffigurau hyn yn dal i beri pryder gan fod 64 y cant o'r apeliadau a dderbyniwyd wedi'u hildio gan Awdurdodau Lleol o fewn y flwyddyn Tribiwnlys. Er mwyn rhoi'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad 'Right First Time' ar waith, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Awdurdodau Lleol edrych ar y rhesymau y tu ôl i'r lefelau ildio uchel.

Yn ôl y disgwyl, gan fod llai o apeliadau wedi'u cofrestru yn 2011/12, mae nifer yr apeliadau a dderbyniwyd am y datganiad wedi lleihau 22%, o 58 yn 2010/11 i 45 yn 2011/12 sef gostyngiad o 13.

Mae'r tabl isod yn rhannu'r apeliadau am ddatganiad yn ôl rhan a cheir cymhariaeth o'r niferoedd a dderbyniwyd yn ôl blwyddyn Tribiwnlys:

<b>Blwyddyn Tribiwnlys</b>	<b>2011/12</b>	<b>2010/11</b>
<b>Rhannau 2 a 3</b>	24	20
<b>Rhan 3</b>	6	8
<b>Rhannau 2, 3 a 4</b>	11	23
<b>Rhannau 3 a 4</b>	2	1
<b>Rhan 4</b>	2	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>45</b>	<b>52</b>

Mae'n ddiddorol nodi, er bod nifer yr apeliadau wedi lleihau, mae'r rhaniad canrannol rhwng gwrthod asesu neu roi datganiad ac apeliadau am y datganiad ei hun wedi aros yr un peth sef 46% a 52% yn y drefn honno.

Wrth edrych ar nifer yr apeliadau yn ôl oedran ysgol h.y. cynradd, trosglwyddo o'r ysgol gynradd, uwchradd, mae gostyngiad amlwg o 17 o apeliadau i blant o oedran ysgol gynradd. Mae hyn 30% yn llai na 2010/11. Bu gostyngiad hefyd o chwe apêl ar gyfer trosglwyddo o'r ysgol gynradd, sef 38% yn llai na 2010/11. Mae niferoedd yr apeliadau ysgol uwchradd wedi aros yn gymharol sefydlog; fodd bynnag, wrth edrych ar gyfran ganrannol yr apeliadau, mae apeliadau ysgol uwchradd wedi cynyddu 8% o 34% yn 2010/11 i 42% yn 2011/12.

Ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mae'r ffigurau diweddaraf gan Ystadegau Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru <sup>1</sup> yn dangos:

- lleihad yng nghyfanswm y disgyblion â datganiadau, o 14,009 yn 2010/11 i 13,591 yn 2011/12;
- cynnydd yn nifer y disgyblion sydd newydd gael eu hasesu â'r angen am ddatganiad arnynt o 1,264 yn 2010/11 i 1,333 yn 2011/12.

O ran canlyniadau gwnaethom ymdrin â chyfanswm o 80 o apeliadau yn ystod blwyddyn tribiwnlys 2011/12. Mae hyn yn lleihad o 34% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

O'r 80 o apeliadau:

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Ystadegau Cymru, SDR 88/2012 Disgyblion â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2012

- penderfynwyd ar 17 mewn gwrandawriad
- tynnwyd 39 yn ôl gan y rhiant;
- ildiwyd 24 gan yr Awdurdod Lleol.

## **Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012**

Ar 6<sup>ed</sup> Mawrth 2012 daeth y Rheoliadau newydd ar gyfer y Tribiwnlys i rym. Gweithiodd y Tribiwnlys yn agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a osododd y rheoliadau ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Rheoliadau newydd yn cyflwyno amcan a rhwymedigaeth bennaf y Tribiwnlys i gydweithredu, sef ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r rhain yn nodi y bydd y Tribiwnlys yn disgwyl i rieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a chyrrff cyfrifol helpu i hyrwyddo'r amcan pennaf drwy gydweithredu â'i gilydd a'r Tribiwnlys at ddibenion datblygu'r apêl neu'r hawliad.

## **Peilot Plant [Mesur Addysg (Cymru) 2009]**

Mae Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 hefyd yn darparu ar gyfer hawliau Plant i wneud apêl anghenion addysgol arbennig neu hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg eu hunain.

Mae'r hawliau'n cael eu profi ar hyn o bryd yn ardal Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin a Wrecsam, ac ar ôl hyn rhagwelir y caiff y cynllun peilot ei gyflwyno i bob plentyn yng Nghymru. Gall plant yn yr ardal beilot wneud eu cais am apêl a hawliad eu hunain, ond nid yw'r ddarpariaeth newydd yn effeithio ar hawl bresennol y rhiant. Gall rhiant wneud apêl a hawliad o hyd p'un a yw ei blentyn yn gwneud un ai peidio.

Ers i hawliau plant i wneud apêl neu hawliad ddod i rym ym mis Mawrth, mae'r Tribiwnlys wedi derbyn un hawliad gan ddefnyddio'r hawliau newydd. Cyflwynir canlyniad y gwrandawriad yn adroddiad blynyddol blwyddyn nesaf.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut y gall plant wneud eu hapeliadau neu eu hawliadau eu hunain, gofynnwch i ni am gopi o'n Pecyn gwybodaeth a Ffurflenni i Blant, Rhieni a Ffrindiau Achosion.

## Cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cefais fy nghyfarfod blynyddol gyda Mr Leighton Andrews yr Aelod Cynulliad dros Addysg a Sgiliau ym mis Ionawr 2012. Cyflwynais adroddiad ar waith y Tribiwnlys a rhoddais fanylion am y pecyn gwybodaeth yr oedd y Tribiwnlys wedi'i baratoi ar gyfer plant, rhieni a ffrindiau achosion, a oedd yn ymdrin â'r rheoliadau newydd. Cyflwynais adroddiad hefyd ar y ffaith bod y Tribiwnlys yn cynhyrchu DVD a gwefan newydd (sydd bellach wedi'u cwblhau) a fyddai'n sail i'r cyhoeddiadau newydd a'n bod wedi cwblhau ein hyfforddiant i'n haelodau ar gyfer y system newydd. Bu ymateb y Gweinidog yn gadarnhaol a nododd y Gweinidog ei fod yn dymuno i bob Aelod o'r Cynulliad gael copi o'r pecyn gwybodaeth a'r DVD. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n anfon llythyr gyda'r pecyn gwybodaeth a'r DVD cyn gynted ag y byddai'n cael y copïau dwyieithog ac y byddai'r llythyr yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad drosglwyddo'r copïau i'w gweithwyr achos.

Mynegais fy mhryder ynghylch y niferoedd mawr (33%) o apeliadau a ildwyd gan yr Awdurdod Lleol. Roedd gan apeliadau yn erbyn gwrthod asesu gyfradd ildio arbennig o uchel, sef bod 38 o'r 42 o apeliadau a dderbyniwyd wedi'u hildio. Eglurais fod y materion hyn yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd grŵp defnyddwyr y Tribiwnlys. Mynegodd y Gweinidog bryder ynghylch y ffigurau hyn a chytunodd fod papur y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd "Right First Time" yn berthnasol iawn ac y byddai'n cael ei ddwyn at sylw'r Awdurdodau Lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys Grŵp Cynhwysiant Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC).

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am gymryd yr amser prin sydd ganddo i drafod y materion hyn. Mae'n arwydd o'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru.

## Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd - Pwyllgor Cymreig

Fel y gwyddoch mae'r Cyngor hwn wedi wynebu'r bygythiad y bydd yn cau nawr ers o leiaf ddwy flynedd, gan ei fod wedi cael ei restru fel corff i'w ddiddymu fel rhan o'r newidiadau a ddeddfwyd o dan y Bil Cyrff Cyhoeddus. Byddai hyn yn golygu y gallem hefyd golli cangen Cymru o'r Cyngor. Ystyriwn y byddai colli'r Pwyllgor Cymreig yn gam yn ôl i'r holl Dribiwnlysoedd datganoledig, yn enwedig wrth i'r tribiwnlysoedd



datganoledig symud i mewn i Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd Llywodraeth Cymru. Mae eu rôl ar yr adeg hon yn hollbwysig ac roedd eu hymchwil i bynciau megis eu papur rhagorol diweddar "Right First Time" yn eithriadol o ddefnyddiol ac fe'i cymeradwyais i bob un o'n defnyddwyr.

## Aelodau ac Ysgrifenyddiaeth

Mae'r Ysgrifenyddiaeth Tribiwnlysoedd wedi bod yn eithriadol o brysur yn paratoi ar gyfer y rheoliadau newydd ac, yn enwedig, ar gyfer hawl Plant i wneud apêl neu hawliad. Dros y flwyddyn Tribiwnlys ddiwethaf:

- Trefnwyd digwyddiadau i wneud aelodau, rhanddeiliaid a'r ysgrifenyddiaeth yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng yr hen reoliadau a'r rhai newydd;
- Adolygwyd a diwygiwyd dulliau gohebu a phrosesu;
- Dosbarthwyd y cyhoeddiadau a gyhoeddwyd i hysbysu plant sut i wneud apêl neu hawliad er mwyn ymgynghori ymhellach ag unigolion, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill;
- Adolygwyd a diwygiwyd cyhoeddiadau presennol yng ngoleuni'r rheoliadau newydd;
- Ail-lansiwyd y wefan er mwyn ceisio ei gwneud yn haws i'w defnyddio ac yn fwy hygyrch;
- Sefydlwyd gwasanaeth negeseuon testun i wneud y Tribiwnlys yn fwy hygyrch i blant;
- Cynhyrchwyd DVD, wedi'i dargedu i ddechrau at hysbysu plentyn am wrandawriad AAA, ond pan gafodd ei lansio, cafodd ei gyflwyno ym mhob achos gan ei fod o ansawdd mor uchel.

Canfuwyd bod gwaith yr ysgrifenyddiaeth o'r fath ansawdd uchel fel iddo gael ei enwebu ac ennill Gwobr Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru am Wasanaeth Cwsmeriaid.

Roeddwn yn falch bod gwaith caled yr Ysgrifenyddiaeth wedi ei gydnabod yn y ffordd hon. Cwblhaodd yr Ysgrifenyddiaeth yr holl gyhoeddiadau, gan gynnal hyfforddiant ar gyfer y rheoliadau newydd o fewn eu cyllideb bresennol a heb unrhyw aelodau pellach o staff. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn haeddu'r clod hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch a dymuno'r gorau i Sarah Smith, a ddirchafwyd i swydd Ysgrifennydd/Rheolwr Busnes ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru), ac i Sian Mills, a ddirchafwyd yn Uwch Reolwr Gweithrediadau ar gyfer yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a

Thriwlynsoedd. Er na fyddwn yn eu colli'n llwyr, byddwn yn gweld eu heisiau gan fod y ddwy ohonynt wedi bod yn aelodau gwerthfawr o dîm TAAAC. Ar ran yr aelodau a'r ysgrifenyddiaeth, dymunaf yn dda i'r ddwy ohonynt yn eu gyrfaoedd.

Estynnir croeso cynnes i Ann Owen a benodwyd yn lle Sian fel Ysgrifennydd y Tribiwnlys ym mis Ionawr 2012 ac i Danielle Cosgrave a ymunodd â'r Tribiwnlys fel aelod Cymorth Tîm ym mis Gorffennaf 2012.

## **Ac i gloi**

Fel bob blwyddyn, mae hon wedi bod yn un heriol gyda'r holl newidiadau a fu. Rwy'n siŵr y bydd y flwyddyn i ddod unwaith eto yn llawn heriau, yn enwedig yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth a gwaith caled parhaus fy ysgrifenyddiaeth, cadeiryddion ac aelodau rhagorol, rwy'n hyderus bod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau hyn. Mae'n bleser gennyf gydnabod holl waith caled ac ymrwymiad y tîm a diolch iddynt am eu cefnogaeth.

## 2. Ysgrifenyddiaeth ac Aelodau'r Tribiwnlys

<b>Aelodau'r Tribiwnlys</b> Rôl yr aelodau yw gwranddo ar apeliadau a hawliadau a phenderfynu arnynt.	<b>Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys</b> Rôl yr ysgrifenyddiaeth yw gweinyddu apeliadau a hawliadau, darparu gwasanaeth llinell gymorth dros y ffôn i ddefnyddwyr y tribiwnlys a gwasanaethau cymorth i aelodau'r Tribiwnlys.
<b>Llywydd</b>  Rhiannon Walker	<b>Ysgrifennydd/Rheolwr Busnes</b>  Ann Owen
<b>Aelodau Cyfreithiol</b>  Meleri Tudur Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies  <b>Aelodau Lleyg</b>  Sandy Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Gareth Roberts Sian Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson Richard Ellis Owen Hilary Hayward Catrin Lewis	<b>Ysgrifenyddiaeth</b>  Adrian Evans Leon Mills Tania Ryland Danielle Cosgrave

### 3. Niferoedd ac ystadegau

Tabl 3.1 Prif niferoedd ac ystadegau


Apeliadau yn ôl Canlyniad (gan gynnwys apeliadau a gariwyd drosodd o 2010/11)

2011-2012	Gwirioneddol	Canran	2010-2011	Gwirioneddol	Canran
Penderfynwyd	16	15%	Penderfynwyd	27	18%
Tynnwyd yn ôl	39	37%	Tynnwyd yn ôl	47	33%
Cydsyniwyd	24	23%	Cydsyniwyd	47	33%
Dilëwyd	1	1%	Dilëwyd	0	0%
Dan ystyriaeth	29	24%	Dan ystyriaeth	23	16%
<b>Cyfanswm</b>	<b>109</b>	<b>100%</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>144</b>	<b>100%</b>


## Canlyniad Apeliadau a gofrestrwyd yn 2011/12 yn ôl math

Math o Apêl	Apeliadau 2011-2012		Apeliadau 2010-2011	
	Cyfanswm yr Apeliadau 86		Cyfanswm yr Apeliadau 112	
Gwrthod Asesu	28	33%	42	37%
Gwrthod rhoi Datganiad	12	14%	10	9%
Gwrthod Ailasesu	1	1%	0	0%
Dod â Datganiad i Ben	0	0%	2	2%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	24	28%	20	18%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2,3 a 4	11	13%	23	21%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	6	7%	8	7%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	2	2%	6	5%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	2	2%	1	1%

**Tabl 3.2 Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd â hwy yn ôl blwyddyn Tribiwnlys**




**Tabl 3.3 Nifer yr Apeliadau a dderbyniwyd yn ôl chwarter 2011-2012**




Nifer a chanran (%) wirioneddol yr apeliadau a dderbyniwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl awdurdod lleol**



Canran (%) yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012


**Tabl 3.5 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol**



Nifer wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012 a 2010-2011




**Tabl 3.6 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl math o apêl**



Nifer a chanran (%) wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012 a 2010-2011

**Tabl 3.7 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl oedran ysgol a math o apêl 2011 - 2012**


Meithrin Cynradd Pontio Cynradd Uwchradd



Nifer a chanran (%) wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.8 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol 2011-2012**


Meithrin Cynradd Pontio Cynradd Uwchradd



Nifer wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.9 Canlyniad apeliadau**


2011-2012 2010-2011



Nifer a chanran (%) wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yr ymdriniwyd â hwy yn 2011-2012 a 2010-2011

### Tabl 3.10 Canlyniad apeliadau yn ôl math


■ Cydsyniwyd 
 ■ Tynnwyd yn ol 
 ■ Ategwyd 
 ■ Gwrthodwyd 
 ■ Dan ystyriaeth



Nifer wirioneddol yr apeliadau yr ymdriniwyd â hwy yn 2011-2012

**Tabl 3.11 Canlyniad apeliadau yn ôl awdurdod lleol 2011 – 2012 gan gynnwys y rhai a gariwyd drosodd**


■ Cydsyniwyd 
 ■ Tynnwyd yn ôl 
 ■ Ategwyd 
 ■ Gwrthodwyd 
 ■ Dan Ystyriaeth



Nifer wirioneddol yr apelidadau a gofrestrwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.12 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl awdurdod lleol a math**

■ Cydsyniwyd 
 ■ Tynnwyd yn ôl 
 ■ Ategwyd 
 ■ Gwrthodwyd 
 ■ Dan Ystyriaeth




Nifer wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.13**

**Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl angen addysgol arbennig**

2011-2012 2010-2011

**Nifer yr Apeliadau**




Nifer a chanran (%) wirioneddol yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012 a 2010-2011



**Tabl 3.14 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl rhyw 2011 – 2012**


■ Bachgen ■ Merch



Canran (%) yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012


**Tabl 3.15 Apeliadau a gofrestrwyd yn ôl ethnigrwydd 2011-2012**

■ Gwyn ■ Heb gwblhau ■ Arall




Canran (%) yr apeliadau a gofrestrwyd yn 2011-2012

**Tabl 3.16 Hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac y cyflawnwyd â hwy yn ôl blwyddyn Tribiwnlys**




**Tabl 3.17 Canlyniad hawliadau**



Nifer wirioneddol yr hawliadau a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2011-2012 a 2010-2011

# Tabl 3.18 Ceisiadau Llywyddol



Nifer wirioneddol o geisiadau llywyddol ac a gyflawnwyd â hwy yn ystod 2011-2012

## 4. Adolygiadau ac apeliadau sy'n mynd ymlaen

Gall ceisiadau am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys gael eu gwneud gan rieni ac awdurdodau lleol ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, cafodd 1 cais ei wneud, a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach.

Gall apeliadau i Haen Uwch y Gwasanaeth Tribiwnlys gael eu gwneud gan rieni ac awdurdodau lleol yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys os credir bod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt cyfreithiol. Rhaid gofyn i TAAAC yn gyntaf am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn gwnaed pedwar cais am ganiatâd i apelio i TAAAC, a chafodd dau ohonynt eu tynnu'n ôl a dau eu gwrthod. Cafodd y ddau gais a wrthodwyd eu hailgyflwyno i'r Uwch Dribiwnlys.

Cafodd apêl lle y gwrthodwyd caniatâd i apelio gan TAAAC yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 2010/11 ei hailgyflwyno i'r Uwch Dribiwnlys. Cafodd yr achos hwn ei ailgyfeirio i TAAAC i wrando arno eto.

## 5. Ein perfformiad

Rydym yn mesur ein perfformiad drwy dargedau perfformiad allweddol a gwiriadau boddhad cwsmeriaid. Mae hyn yn ein helpu i fonitro cyflymder ac ansawdd ein gwasanaeth.

Er ein bod wedi gweld gostyngiad o 23% yn nifer yr apeliadau AAA a gofrestrwyd, mae llawer o'r achosion wedi bod yn gymhleth iawn. Dangosir hyn gan y ffaith bod ein cyflawniad o ran targedau ychydig yn is na'r llynedd.

Byddwn yn monitro hyn dros y 12 mis nesaf ac os bydd achosion yn parhau i fod yn gymhleth o ran natur byddwn yn ystyried diwygio ein targedau.


### Targedau perfformiad allweddol

Targed: Ymdriniwyd â 95% o'r ymholiadau cyn-gofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn Hysbysiad Apêl

Targed wedi'i gyflawni mewn 100% o'r achosion

Targed: 95% o'r apeliadau AAA wedi'u cofrestru o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn Hysbysiad Apêl

Targed wedi'i gyflawni mewn 91% o'r achosion



## Arolwg o foddhad cwsmeriaid

Derbyniwyd 11 o ffurflenni wedi'u cwblhau dros gyfnod yr adroddiad, ac o blith y rhain:

dywedodd 100% o gwsmeriaid ein bod o gymorth wrth ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn, ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon ar y wybodaeth a gafwyd;

cytunodd 100% o gwsmeriaid ein bod wedi prosesu eu hapêl/achos yn effeithiol

## Cwynion

Cafwyd 1 cwyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

## 6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr

### Cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr

Cynhaliodd y Tribiwnlys Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr ar 26 a 28 Mawrth 2012 ac fe'u mynychwyd gan lawer o'n rhanddeiliaid sy'n cynnwys swyddogion Awdurdodau Lleol, grwpiau cymorth partneriaeth rhieni, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Roedd y papurau a'r eitemau a drafodwyd yn cynnwys adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd 'Right First Time', Adroddiad Blynyddol 2010/11, newidiadau allweddol i Reoliadau 2012 TAAAC, cyhoeddiadau newydd TAAAC, y wefan a'r DVD, diweddariad ar gynllun peilot hawl y plentyn i apelio/gwneud hawliad a'r argymhellion o ran diwygio asesiadau statudol a datganiadau.

Mae gwybodaeth am Gyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys ar gael ar ein Gwefan [www.taaac.gov.uk](http://www.taaac.gov.uk). Cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth os oes diddordeb gennych mewn mynychu cyfarfodydd.

## 7. Yr iaith Gymraeg

Mae gan y Tribiwnlys bolisi iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o ansawdd uchel i siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n apelio neu'n gwneud hawliad i'r Tribiwnlys. Mae pob un o'n cyhoeddiadau a ffurflenni yn ddwyieithog a gall gwrandawiadau ar gyfer apeliadau a hawliadau gael eu cynnal yn y ddwy iaith.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'r iaith gyntaf, byddwn yn trefnu i gyfieithydd ar y pryd fynd i'r gwrandawriad ac yn gwneud ein gorau i ddiwallu'r holl anghenion ieithyddol.

Ni wnaed unrhyw apeliadau na hawliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2011/12

Mae TAAAC yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithredu ei gynllun. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan TAAAC neu gellir ei gael drwy gysylltu â'r Tribiwnlys.

## 8. Gwariant

### Gwariant: 1 Ebrill 2010 - 31 Mawrth 2011

<b>Gwariant</b>	<b>2011-2012</b>
Ffioedd a Threuliau Llywydd ac Aelodau'r Tribiwnlys	£106,000
Gwrandawiadau, Achosion o Ganslo a Grŵp Defnyddwyr	£25,000
Treuliau Swyddfa	£13,000
Hyfforddiant Tribiwnlys	£3,000
Treuliau Apelio Eraill (Hawliadau Tystion, Cyfieithu ar y pryd)	£400
<b>Cyfanswm</b>	<b>£147,400</b>

Cynyddodd lefel gwariant Treuliau Swyddfa £8,000 o 2010/11 oherwydd y gost o gynhyrchu cyhoeddiadau diwygiedig a newydd a'r DVD yn barod ar gyfer cyflwyno Rheoliadau TAAAC 2012, a roddodd yr hawl i apelio neu wneud hawliad i blant.

Caiff y costau ychwanegol megis cyflogau staff ar gyfer yr ysgrifenyddiaeth a chostau swyddfeydd a rennir y Tribiwnlys eu talu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru. Y costau hyn yw:

Cyflogau staff	£169,000
Swyddfeydd	£20,000

\*wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf

## 9. Cysylltu â'r Tribiwnlys

Noder: Mae cyfeiriad y Tribiwnlys wedi newid.

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Adeiladau Llywodraeth  
Heol Spa Ddwyrain  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5HA

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 01597 829800

Ffacs y Tribiwnlys: 01597 829801

E-bost y Tribiwnlys: [sentw@wales.gsi.gov.uk](mailto:sentw@wales.gsi.gov.uk)

Gwefan y Tribiwnlys: [www.taaac.gov.uk](http://www.taaac.gov.uk)